

<p><b><u>Yn bresennol</u></b></p> <p><b>Aelodau'r Bwrdd:</b>  Y Cyngorydd Huw Thomas  <b>(Cadeirydd)</b>  Charles Janczewski <b>(Is-gadeirydd)</b></p> <p>Suzanne Rankin  Fiona Kinghorn  Abigail Harris  Sarah McGill  Andy Robinson</p> <p>Mike Wyatt  Dan Howe  Alun Michael  Dan Jones  Sheila Hendrickson-Brown  Estella Enos</p> <p><b>Ymddiheuriadau:</b>  Paul Orders  David Letellier  Gareth O'Shea  Huw Jakeway  Martyn Stone  Eirian Evans</p> <p><b>Hefyd yn bresennol:</b>  Gareth Newell  Sian Sanders  Abigail Streeter  Tomos Owen  Suzanne Wood  Becky Matyus</p>	<p>Arweinydd, Cyngor Caerdydd (CC)</p> <p>Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP Caerdydd a'r Fro)</p> <p>Prif Weithredwr, BIP Caerdydd a'r Fro</p> <p>Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, BIP Caerdydd a'r Fro</p> <p>Cyfarwyddwr Cynllunio, BIP Caerdydd a'r Fro</p> <p>Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, CC</p> <p>Arweinydd Tîm, Pobl a Lleoedd, Canol De Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)</p> <p>Rheolwr Grŵp, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC)</p> <p>Prif Arolygydd, Heddlu De Cymru (HDC)</p> <p>Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHT) De Cymru</p> <p>Cyfarwyddwr yr Uned Atal Trais, HDC</p> <p>Prif Swyddog Gweithredol, C3SC</p> <p>Dirprwy Bennaeth yr Uned Cyflawni Prawf (UCP), Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (GPC)</p> <p>Prif Weithredwr, CC</p> <p>Pennaeth Gweithrediadau Canol De Cymru, CNC</p> <p>Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru, CNC</p> <p>Prif Swyddog Tân, GTADC</p> <p>Prif Uwch-arolygydd, HDC</p> <p>Pennaeth yr UCP, GPC</p> <p>Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau, CC</p> <p>Pennaeth Cydlyniant a Diogelwch Cymunedol CC</p> <p>Swyddog Cynllunio a Gwella, CC</p> <p>Prif Weithredwr Dros Dro, Oasis Caerdydd</p> <p>Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus Gweithredu yng Nghaerau a Threlái (ACE)</p>
---	--

Rhif	Eitem Agenda	
1.	<p><b>Croeso / Ymddiheuriadau</b></p> <p>Dechreuodd y Cadeirydd y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.</p>	
2.	<p><b>Cofnodion a Chamau Gweithredu</b></p> <p>Nododd y Cadeirydd fod yr holl gamau gweithredu yng nghofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2023 wedi'u cwblhau.</p> <p><b>CYTUNWYD:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2023</li> </ul>	
3.	<p><b>Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches</b></p> <p>Croesawodd Tomos Owen aelodau'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC) i Oasis Caerdydd. Rhoddodd Tomos drosolwg o'r sefydliad a'r gwaith a wneir ar draws y ddinas: prif nod a gweledigaeth y sefydliad yw helpu ffoaduriaid a cheiswyr lloches i integreiddio yn eu cymuned leol. Yn ystod yr wythnos, mae'r ganolfan yn cynnal sesiynau, grwpiau a dosbarthiadau amrywiol i gefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches, yn ogystal â chynnig cinio am ddim bob diwrnod o'r wythnos.</p> <p>Rhoddodd Sian Sanders drosolwg o'r dirwedd ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghaerdydd, yn ogystal â diweddariad ar ddatblygiadau diweddar, gan gynnwys cyfeiriad teithio polisi yn y maes hwn. Gwnaeth y cyflwyniad ymdrin â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Trosolwg o Ddata Mudo <ul style="list-style-type: none"> <li>- Data Cymharol Awdurdodau Lleol y DU</li> </ul> </li> <li>- Adsefydlu Gwladolion Affganistan</li> <li>- Cynlluniau Fisas i Wcreiniaid <ul style="list-style-type: none"> <li>- Adolygiad o flwyddyn 1</li> <li>- Blwyddyn 2 hyd yn hyn</li> </ul> </li> <li>- Gwasgaru Ceiswyr Lloches – Trosolwg polisi <ul style="list-style-type: none"> <li>- Data Pobl sy'n Cyrraedd y DU</li> <li>- Deddf Mudo Anghyfreithlon 2023</li> <li>- Symleiddio Prosesu Ceiswyr Lloches (SPCLI)</li> </ul> </li> <li>- Cynnydd cyflym mewn digartrefedd yng Nghaerdydd</li> </ul> <p>I grynhoi, nodwyd y canlynol:</p>	

Rhif	Eitem Agenda	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae Caerdydd yn y chweched safle allan o'r 329 o awdurdodau lleol yn y DU cyfan o ran cyfanswm effaith fesul pen o'r boblogaeth yr holl gynlluniau mudo gyda'i gilydd. Yn ogystal, mae Caerdydd yn gartref i dros 50% o'r ffoaduriaid a'r ceiswyr lloches yng Nghymru.</li> <li>• Mae'r ddinas, drwy BGC Caerdydd, wedi cyflwyno ymateb partneriaeth llwyddiannus i argyfyngau Affganistan ac Wcráin.</li> <li>• Bydd pwysau ar unwaith, difrifol ac annisgwyl o wasgaru ceiswyr lloches rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2023 yn parhau i 2024.</li> <li>• Ar hyn o bryd, mae pwysau tai eithriadol sy'n deillio o ystod o ffactorau, gan gynnwys mudo, wedi arwain at argyfwng digartrefedd yng Nghaerdydd a allai, ochr yn ochr â'r effaith ar deuluoedd, unigolion, a gwasanaethau cyhoeddus ehangach, hefyd arwain at effeithiau ar gydlyniant cymunedol.</li> </ul> <p>O ganlyniad, cynigiwyd bod BGC Caerdydd yn ysgrifennu at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip i nodi'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus y ddinas a cheisio cryfhau agenda ddwyochrog ar y mater hwn gyda Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cefnogi/ariannu ymateb Caerdydd yn briodol.</p> <p>Codwyd y pwyntiau canlynol gan aelodau'r BGC:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nododd Alun Michael ei bod yn hanfodol bod y llythyr yn cydnabod yr effeithiau anghymesur sy'n wynebu Caerdydd ac yn tynnu sylw at y ffaith y byddai'n ddefnyddiol i awdurdodau lleol eraill yng Nghymru deall y pwysau sy'n wynebu Caerdydd. Nododd Alun hefyd y byddai'n ddefnyddiol deall cyd-destun hanesyddol ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghaerdydd, a gofynnodd am yr effaith ar wasanaethau pan roddir statws ffoadur i unigolyn sy'n ceisio lloches.</li> <li>• Nododd y Cynghorydd Huw Thomas fod y Swyddfa Gartref wedi newid ei pholisi ar ardaloedd y gwasgerir iddynt ond ni welwyd effaith hyn dros y 12 mis diwethaf. Nododd y Cynghorydd Thomas mai'r her allweddol sy'n wynebu Caerdydd yw rheoli gwasgaru y tu hwnt i'r pwynt gwneud penderfyniadau lloches.</li> </ul>	

Rhif	Eitem Agenda	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nododd Sian y bydd cyflymu'r broses o wneud penderfyniadau lloches yn creu galw enfawr, yn enwedig o ran nifer y bobl sy'n nodi eu bod yn ddigartref. Nid oes unrhyw fecanweithiau ariannu rheolaidd ar gyfer cynghorau i gefnogi cynnydd yn nifer y bobl sy'n nodi eu bod yn ddigartref. Dim ond yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf y mae arian wedi bod ar gael i gynghorau ddefnyddio llety lloches ac, er ei fod yn cael ei groesawu, nid yw wedi talu costau. Mae pryderon yn cael eu rhannu ar draws llywodraeth leol.</li> <li>• Cydnabu Sheila Hendrickson-Brown y pwysau a gyflwynwyd ond tynnodd sylw at y ffaith bod angen cydnabod y manteision tymor hwy hefyd, o ran cynyddu amrywiaeth o fewn y ddinas.</li> <li>• Tynnodd y Cynghorydd Thomas sylw at y ffaith bod Caerdydd yn enwog am ei hamrywiaeth ddiwylliannol a'i bywiogrwydd ond eto cydnabu fod y pwysau a gyflwynwyd yn ddigynsail. Nododd y Cynghorydd Thomas y bydd pocedi o amddifadedd ar draws y ddinas yn cael eu heffeithio ymhellach oherwydd y pwysau yn y maes hwn.</li> <li>• Nododd Fiona Kinghorn ei bod yn bwysig tynnu sylw at yr effaith ar wasanaethau gofal iechyd. Mae'r effaith dros amser yn dibynnu ar nifer y bobl sy'n ceisio statws, cymhlethdod achosion, yn ogystal â hirhoedledd arosiadau. Nododd Fiona nad yw cynlluniau mudo yn tueddu i fod â dyraniadau gofal iechyd.</li> <li>• Nododd Sheila fod angen tynnu sylw at yr effeithiau cyffredinol hefyd - gan gynnwys effeithiau ar y sector cymunedol a'r trydydd sector.</li> <li>• Nododd y Cynghorydd Thomas y bydd y trydydd sector yn hanfodol wrth helpu i reoli a chefnogi'r unigolion hyn, yn enwedig y tu hwnt i ddarpariaeth statudol.</li> <li>• Tynnodd Matt Jenkins, o ran effeithiau, sylw at y ffaith bod angen ystyried cyflogadwyedd hefyd.</li> <li>• Nododd Sian fod deall y daith ar ôl symud ymlaen yn hanfodol. Ar hyn o bryd mae data ynghylch cyflogaeth, addysg a sgiliau yn gyfyngedig ond mae'r Cyngor yn awyddus i ddatblygu dealltwriaeth yn y maes hwn.</li> </ul>	

Rhif	Eitem Agenda	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dywedodd Charles Janczewski y byddai'n ddefnyddiol i'r llythyr gael ei gyfeirio at Brif Weinidog Cymru, gan fod y mater yn effeithio ar gymaint o feysydd. Yna mater i'r BGC fydd penderfynu'r camau strategol nesaf.</li> <li>• Cefnogodd Alun y dull a amlinellwyd gan Charles, gan nodi y byddai'n helpu i osgoi sgyrsiau mewn seilos. O ran sgiliau a galluoedd ffoaduriaid a cheiswyr lloches, pwysleisiodd Alun yr angen am fentora a chymorth unigol o fewn sefydliadau.</li> <li>• O ran tynnu sylw at bwysau i'r Swyddfa Gartref, nododd Sian fod y Cyngor yn cydgysylltu â'r rhwydwaith Dinasoedd Craidd ar hyn o bryd; mae pryderon yn cael eu rhannu ar draws yr holl ddinasoedd sy'n aelodau.</li> <li>• Nododd Suzanne Rankin fod angen fframio'r mater o fewn cydestun problemau presennol, gydag eglurder yn cael ei roi i beth yw'r risgiau, gan gynnwys yr effeithiau ariannol sy'n deillio o bwysau ar wasanaethau.</li> <li>• Atgyfnerthodd Sarah McGill yr angen i fonitro effeithiau ar gydlyniant cymunedol. Mae angen ystyried unrhyw negeseuon a gyflwynir yn ofalus.</li> </ul> <p><b>Cytunodd BGC Caerdydd</b> i ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru i nodi'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus y ddinas a cheisio cryfhau agenda ddwyochrog ar y mater hwn gyda Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cefnogi/ariannu ymateb Caerdydd yn briodol.</p>	
4.	<p><b>Adfywio Strategaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro</b></p> <p>Tynnodd Abi Harris sylw at y ffaith bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi lansio Strategaeth Gorfforaethol newydd yn ddiweddar. Rhoddodd Abi drosolwg lefel uchel o'r strategaeth, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Y Weledigaeth</li> <li>- Amcanion a Blaenoriaethau Strategol: <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Rhoi Pobl yn Gyntaf</li> <li>2. Darparu Ansawdd Rhagorol</li> <li>3. Cyflawni yn y Mannau Iawn</li> <li>4. Gweithredu dros y Dyfodol</li> </ol> </li> </ul>	

Rhif	Eitem Agenda	
	<p>Pwysleisiodd Abi fod y Strategaeth wedi'i halinio ag agendâu BGC Caerdydd a BGC y Fro, yn ogystal ag agenda Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) Caerdydd a'r Fro.</p> <p>Codwyd y pwyntiau canlynol gan aelodau'r BGC:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nododd Alun Michael nad yw'r Strategaeth yn cyfeirio'n benodol at bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth ac atal, gan gyfeirio'n enwedig at blismona a chyfiawnder troseddol, lleihau trais, yn ogystal â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.</li> <li>• Nododd Sheila Hendrickson-Brown nad yw'r Strategaeth ychwaith yn cyfeirio'n benodol at y sector cymunedol na'r trydydd sector.</li> <li>• Nododd Abi Harris, er nad yw'r materion hyn yn cael sylw penodol yn y strategaeth, eu bod yn cael eu hystyried yn fanwl yn y cynlluniau cyflawni sydd dan y strategaeth.</li> <li>• Dywedodd Fiona Kinghorn y dylid ystyried y Strategaeth fel dogfen grynhoi. Mae'r themâu a drafodir yn eang – o wella iechyd, i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac atal. Mae'r Cynllun yn cyfeirio at, ac yn cysylltu â chynlluniau eraill, fel y Cynllun Lles Lleol. Pwysleisiodd Fiona fod y manylion yn cael sylw mewn cynlluniau cyflawni ategol, yn ogystal â chynlluniau partner.</li> <li>• Tynnodd Suzanne Rankin sylw at y ffaith bod cryn dipyn o waith wedi ei wneud i gynhyrchu'r strategaeth - gan gynnwys trafodaethau gyda rhanddeiliaid a staff. Mae'r Strategaeth yn rhoi dealltwriaeth lefel uchel i gydweithwyr o gyfeiriad teithio'r Bwrdd lechyd; y disgwyliad, wrth symud ymlaen, yw parhau i weithio gyda phartneriaid a mabwysiadu dull cydgyhyrchiol o gyflawni. O ran y gallu i gyflawni'r strategaeth a lefel ei huchelgais, nododd Suzanne fod realaeth i'w gweld yn y Strategaeth, gan ystyried bod adnoddau'n gyfyngedig, bod y galw yn tyfu, a bod ailflaenoriaethu'n digwydd yn aml.</li> <li>• Tynnodd Fiona sylw at bwysigrwydd parhau i gasglu data i ddeall materion.</li> <li>• Nododd Andy Robinsons fod Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn croesawu'r Strategaeth; tynnodd Andy sylw at y ffaith bod y Strategaeth yn cyd-fynd â Chynllun Corfforaethol newydd CNC. Nododd Andy ymhellach yr hoffai CNC archwilio atal yn arbennig, gan gynnwys rôl manau glas a gwyrdd.</li> <li>• Rhoddodd Charles Janczewski sicrwydd i'w gydweithwyr fod y pwyntiau a godwyd yn ddilys a thynnodd sylw at y ffaith bod</li> </ul>	

Rhif	Eitem Agenda	
	<p>croeso i aelodau'r BGC dynnu sylw at unrhyw bryderon pellach. Pwysleisiodd Charles bwynt Suzanne am y ffaith bod realaeth i'w gweld yn y Strategaeth.</p>	
5.	<p><b>Cynyddu Gwaith Atal: Diweddariad</b></p> <p>Rhoddodd Fiona Kinghorn a Suzanne Wood y wybodaeth ddiweddaraf am waith y rhaglen Cynyddu Gwaith Atal. Gwnaeth y cyflwyniad ymdrin â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Cefndir a chyd-destun</li> <li>- Imiwneiddio Plant</li> <li>- Sgrinio'r Coluddyn</li> <li>- Symud Mwy, Bwyta'n Iach</li> <li>- Partneriaeth Diogelu Iechyd Caerdydd a'r Fro</li> <li>- Egwyddorion Craidd Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru – Chwefror 2023) <ul style="list-style-type: none"> <li>- Nod Strategol</li> <li>- System Diogelu Iechyd Integredig Caerdydd a'r Fro - ar gyfer pwy y mae?</li> <li>- Swyddogaethau Partneriaeth Diogelu Iechyd Caerdydd a'r Fro <ul style="list-style-type: none"> <li>- Llywodraethu</li> </ul> </li> </ul> </li> <li>- Argymhellion</li> </ul> <p>Codwyd y pwyntiau canlynol gan aelodau'r BGC:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nododd Fiona Kinghorn fod adborth yn cael ei groesawu o ran nod ac egwyddorion craidd Partneriaeth Diogelu Iechyd Caerdydd a'r Fro.</li> <li>• Nododd y Cynghorydd Huw Thomas, o ran gwasanaethau ataliol, ei bod yn bwysig bod y bobl gywir yn parhau i gael eu nodi a'u targedu.</li> <li>• Gwnaeth Alun Michael gydnabod y ffordd y mae'r rhaglen waith cynyddu gwaith atal yn gorgyffwrdd â llawer o feysydd gwaith eraill, yn enwedig o ran gweithgarwch corfforol a chwaraeon.</li> </ul> <p><b>Cytunodd y BGC i wneud y canlynol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nodi'r cynnydd hyd yn hyn.</li> <li>• Cefnogi a darparu arweinyddiaeth i Gynyddu Gwaith Atal</li> <li>• Cymeradwyo Adroddiad Diwedd Blwyddyn 2022/23 ar Symud Mwy, Bwyta'n Dda</li> <li>• Cefnogi cam nesaf Symud Mwy, Bwyta'n Dda drwy gefnogi cynrychiolaeth uwch swyddogion mewn gweithdai yn y dyfodol.</li> <li>• Cefnogi'r Cynllun Diogelu Iechyd a'r ymateb.</li> </ul>	

Rhif	Eitem Agenda	
6.	<p><b>Ymgysylltu a Chynllun Cymunedol Trelái a Chaerau: Diweddariad</b></p> <p>Rhoddodd Sian Sanders a Becky Matyus y wybodaeth ddiweddaraf am ymgysylltu â'r gymuned yn Nhrelái a Chaerau, yn ogystal â datblygu'r Cynllun Cymunedol. Gwnaeth y cyflwyniad ymdrin â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Atgrynhoi llywodraethu</li> <li>- Diweddariad ar ymgysylltu yn yr haf (Gweithredu yng Nghaerau a Threlái)</li> <li>- Trosolwg – themâu/meysydd ar gyfer gweithredu sy'n dod i'r amlwg</li> <li>- Y camau nesaf (Hydref 2023-Rhagfyr 2024)</li> </ul> <p>Cynhaliwyd llawer iawn o ymgysylltu â'r gymuned dros yr haf, a fydd yn parhau drwy gydol mis Hydref. Fodd bynnag, mae sawl thema/maes ar gyfer gweithredu eisoes yn dod i'r amlwg:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Plant a Phobl Ifanc</li> <li>2. Diogelwch Cymunedol a Diogelu</li> <li>3. Yr Amgylchedd a Thai</li> <li>4. Iechyd a Lles</li> <li>5. Incwm a Chyflogaeth</li> </ol> <p>Wrth edrych ymlaen, mae angen gwaith i fyfyrrio, adolygu a phrofi meddwl – sef, sut y gellir alinio gwasanaethau'n well ar lefel ardal leol i sicrhau gwell canlyniadau i drigolion Trelái a Chaerau. Wrth symud ymlaen - o fis Hydref i fis Rhagfyr 2023 – cynhelir archwiliadau dwfn/gwaith canfod datrysiadau ar gyfer y ddwy brif thema ganlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Plant a Phobl Ifanc</li> <li>- Diogelwch Cymunedol a Diogelu</li> </ul> <p>Bydd Gweithgor y BGC yn cytuno ac yn cefnogi calendr o ddigwyddiadau i ddatblygu opsiynau datrysiadau gydag aelodau'r gymuned. Bydd Gweithgor y BGC yn cyfarfod am y tro cyntaf yr wythnos nesaf, i adolygu a dylunio'r sesiynau. Nodwyd bod croeso o hyd i enwebiadau - o arweinwyr sefydliadol priodol - i Weithgor y BGC.</p> <p>Codwyd y pwyntiau canlynol gan aelodau'r BGC:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nododd y Cynghorydd Huw Thomas fod un o'r heriau'n ymwneud â diogelwch cymunedol a gofynnodd sut y gellir mynd i'r afael â phryderon cymunedol heb ysgogi ymateb negyddol.</li> <li>• Nododd Becky Matyus fod aelodau'r gymuned wedi mynegi awydd am gysylltiadau cymunedol â'r Heddlu, er ar yr un pryd, bu dirywiad mewn ymddiriedaeth. Tynnwyd sylw at hwyluso trafodaethau rhwng cynrychiolwyr yr Heddlu ac aelodau'r</li> </ul>	



Rhif	Eitem Agenda	
	<p>gymuned fel ffordd o ddatblygu cefnogaeth gymunedol i weithredu'r Heddlu. Nododd Becky fod pryderon wedi'u mynegi mewn perthynas â pha mor agored i niwed y mae pobl ifanc, yn enwedig mewn perthynas â Beiciau Trydan, ymddygiad gwrthgymdeithasol, delio cyffuriau a llinellau cyffuriau.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nododd Alun Michael fod ansawdd y gwaith ymgysylltu wedi bod yn eithriadol a nododd fod y gwaith hwn yn cysylltu â newid ymddygiad ac agwedd. Dywedodd Alun, er bod Beiciau Trydan wedi'u hamlygu fel maes sy'n peri pryder, fod Beiciau Modur Trydan hefyd yn peri pryder. Nododd Alun y bydd y pwyntiau hyn yn cael sylw gan y Bwrdd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, gan gynnwys nodi manau ymddygiad gwrthgymdeithasol problemus.</li> <li>• Gofynnodd y Cynghorydd Thomas a yw'r amserlen ar gyfer gweithredu yn bodloni disgwyliadau'r gymuned.</li> <li>• Nododd Becky fod y gymuned eisiau gweld newid ond nad yw am weld newid nad yw wedi cael cyfle i fod yn rhan ohono. Pwysleisiodd Becky fod Gweithredu yng Nghaerau a Threlái yn awyddus i gael y gwaith hwn - a'r Cynllun Cymunedol - yn iawn. Nid oes ateb cyflym ac mae angen ystyried y Cynllun Cymunedol yn gynllun hirdymor. Mae deialog gyson a thryloyw yn cael ei sefydlu gydag aelodau'r gymuned.</li> <li>• Pwysleisiodd Sian Sanders, os codir unrhyw faterion diogelu mewn sgysiau cymunedol, fod angen i'r rhain gael sylw ar unwaith.</li> </ul> <p><b>Cam Gweithredu:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Aelodau'r BGC i enwebu arweinwyr sefydliadol priodol i Weithgor y BGC erbyn dydd Gwener 5 Hydref 2023.</li> </ul>	<b>PAWB</b>
7.	<p><b>Diweddariad ar Ddiogelwch Cymunedol a Diogelu</b></p> <p>Tynnwyd sylw at y ffaith bod y Diweddariad ar Diogelwch Cymunedol a Diogelu wedi'i ddsbarthu i aelodau'r BGC cyn y cyfarfod.</p> <p>Nododd Sian Sanders fod angen cytundeb ynglŷn â'r trefniadau ariannu ar gyfer Adolygiad Dynladdiad Domestig (ADD) 12.</p> <p><b>Cytunwyd i symud ymlaen a chyd-ariannu'r adolygiad yn unol â'r costau a amlinellwyd.</b></p>	

Rhif	Eitem Agenda	
	<p><b>Cam Gweithredu:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfarfod mis Ionawr 2024 y BGC i ystyried diogelwch cymunedol, yn enwedig materion sy'n sail i ymddygiad gwrthgymdeithasol a thensiynau cymunedol.</li> </ul>	<p><b>Ysgrifenyddiaeth y BGC</b></p>
<p><b>8.</b></p>	<p><b>Unrhyw fater arall</b></p> <p><i>BGC Caerdydd: Cyfarfodydd yn y Dyfodol ac Adrodd ar y Cynllun Lles Lleol (2023-28)</i></p> <p>Eglurwyd bod BGC Caerdydd yn goruchwylio pob blaenoriaeth a nodwyd yng Nghynllun Lles Lleol y BGC yn y pen draw.</p> <p><b>Cytunodd y BGC i wneud y canlynol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymeradwyo'r dull o adrodd ar y Cynllun Lles Lleol (2023-28)</li> <li>• Cymeradwyo'r dull o ran cyfarfodydd yn y dyfodol, gan gynnwys eitemau agenda arfaethedig ar gyfer 2023/24.</li> </ul> <p>Dywedodd Gareth Newell, pe bai gan aelodau'r BGC unrhyw bynciau/themâu ychwanegol i'w hystyried, y dylent gysylltu ag Ysgrifenyddiaeth y BGC.</p> <p><i>Rheoli Asedau Partneriaeth</i></p> <p>Ar hyn o bryd mae model arfaethedig yn cael ei ddatblygu ar sail thematig. Mae darn o waith hefyd yn cael ei wneud i fapio rhaglenni buddsoddi presennol. Bydd cyfleoedd yn cael eu hadrodd i'r BGC.</p> <p><i>Seremoni Caerdydd sy'n Dda i Blant</i></p> <p>Rhoddodd y Cynghorydd Huw Thomas wybod i aelodau'r BGC fod disgwyl i Gyngor Caerdydd, ar 27 Hydref 2023, lofnodi cytundeb Dinas sy'n Dda i Blant UNICEF UK yn ffurfiol. Mae digwyddiad wedi'i drefnu yn Stadiwm Dinas Caerdydd i nodi a dathlu'r achlysur, gan wahodd rhanddeiliaid allweddol sydd wedi cyfrannu at daith Caerdydd i gael ei chydabod fel Dinas sy'n Dda i Blant gyntaf y DU. Nodwyd y bydd y digwyddiad yn aros yn gyfrinachol tan 27 Hydref, ond bydd nodyn yn y dyddiadur yn cael ei ddsbarthu i aelodau'r BGC.</p> <p><b>Cam Gweithredu:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nodyn yn y dyddiadur ar gyfer y Seremoni Caerdydd sy'n Dda i Blant i gael ei ddsbarthu i aelodau'r BGC.</li> </ul>	<p><b>Ysgrifenyddiaeth y BGC</b></p>

Rhif	Eitem Agenda	
	<p data-bbox="212 181 520 215"><b>Cyfarfodydd y dyfodol:</b></p> <ul data-bbox="261 226 1166 338" style="list-style-type: none"><li data-bbox="261 226 1166 293">• 20 Tachwedd 2023, 12:30pm (Sesiwn Ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc).</li><li data-bbox="261 304 647 338">• 10 Ionawr 2024, 10:30am</li></ul>	